**Gwasanaeth Datblygiad Cymunedol / Community Development Service**
*Pennaeth Gwasanaeth / Head Of Service - Marianne Jackson*

**Gwasanaeth Polisi Cynllunio / Planning Policy Service**
*Rheolwr Polisi Cynllunio / Planning Policy Manager*
*James Harland MSc, BA (Hons), MRTPI*

26 Stryd y Castell, Conwy LL32 8AY 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY

Put name and address in here

Gofynnwch am / Please ask for: **Planning Policy Service/ Y Gwasanaeth Polisi Cynllunio**

**01492 575461**

**01492 592713**

**Cdll.ldp@conwy.gov.uk**

Ein Cyf / Our Ref: **P/3/5.8**

Eich Cyf / Your Ref:

Dyddiad / Date: **28 Awst 2012**
**28 August 2012**

Annwyl

**Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004**
**Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (Rheoliad 22)**

**Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022**

**Hysbysiad o Gyflwyno Cynllun Datblygu Lleol i Lywodraeth Cymru a Hysbysebu Newidiadau â Ffocws Bwriedig**

Rwy'n falch o ddweud wrthych, yn dilyn ymgynghori blaenorol, mae'r Cyngor wedi cyflwyno cynigion ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol uchod i Lywodraeth Cymru i'w archwilio. Os a phryd, caiff y cynigion cynllun hyn eu mabwysiadu byddant yn ffurfio'r cynllun datblygu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy (ac eithrio'r rhan o'r Fwrdeistref Sirol o fewn Parc Cenedlaethol Eryri) a bydd yn sail ar gyfer penderfyniadau ar gynllunio defnydd tir sy'n effeithio ar yr ardal honno.

Mae'r Cyngor wedi cynnig newidiadau i'r Cynllun Lleol Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd ac mae'r newidiadau hyn wedi eu hamlinellu yn y ddogfen 'Adroddiad

Dear

**Planning and Compulsory Purchase Act 2004**
**The Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004**
**The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 (Regulation 22)**

**Conwy Local Development Plan 2007 – 2022**

**Notice of Submission of a Local Development Plan to the Welsh Government and Advertisement of Proposed Focussed Changes**

I am pleased to inform you that following previous consultation the Council has submitted proposals for the above Local Development Plan to the Welsh Government for examination. If and when, these plan proposals are adopted they will form the development plan for the County Borough of Conwy (excluding the part of the County Borough within the Snowdonia National Park) and will be the basis for decisions on land use planning affecting that area.over the period 2007 to 2022.

The Council has proposed changes to the Revised Deposit Local Plan and these are outlined in the 'Focussed Changes Report' document.

Newidiadau â Ffocws'.

Mae'r newidiadau â ffocws hyn yn amodol ar ymgynghoriad ffurfiol o ddydd Gwener 31 Awst 2012 i ddydd Gwener 12 Hydref 2012 (5.00pm).

These focussed changes are subject to formal consultation from Friday 31st August 2012 to Friday 12th October (5.00pm).

Mae'r dogfennau a gyflwynwyd yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd, Adroddiad Arfarnu Cynaladwyedd (sy'n cynnwys Adroddiad Amgylcheddol), Dogfennau Canllaw Cynllunio Atodol, y Cytundeb Cyflawni, Adroddiad Ymgynghori, copïau o sylwadau a dogfennau cefnogol eraill a'r ddogfen Newidiadau â Ffocws bwriedig.

The submitted documents comprise the Revised Deposit Local Development Plan, a Sustainability Appraisal Report ( incorporating an Environmental Report), Supplementary Planning Guidance Documents, the Delivery Agreement, a Consultation Report, copies of representations and other supporting documents and the proposed Focussed Changes document

Mae copïau o ddogfennau cyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn swyddfeydd canlynol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy rhwng 8.45am – 5.15pm dydd Llun – dydd Iau a 8.45 am tan 4.45 pm ar ddydd Gwener:

i) **Swyddfa Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY**
ii) **Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn, LL29 8AR**
iii) **Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**

Copies of the Local Development Plan submission documents are available for public inspection at the following Conwy County Borough Council Offices between the hours of 8.45am – 5.15pm Monday – Thursday and 8.45 am to 4.45 pm on Fridays:

i) **Planning Policy Office, 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY**
ii) **Civic Offices, Colwyn Bay, LL29 8AR**
iii) **Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU**

Maent hefyd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol (ffoniwch lyfrgelloedd unigol i gael eu horiau agor) ac ar wefan y Cyngor yn **www.conwy.gov.uk/ldp**

They are also available at local libraries (please call individual libraries for opening times) and on the Council's website at **www.conwy.gov.uk/ldp**

Mae'r Cyngor yn dymuno annog ymatebwyr i gyflwyno eu sylwadau ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen gyswllt uchod i'r rhyngrwyd a'r ffurflen a ddarperir ar y wefan. Fel arall, gellir anfon sylwadau trwy ddefnyddio'r ffurflen sylwadau sydd ar gael yn Swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd lleol. Gellir cyflwyno'r ffurflen sylwadau naill ai drwy:

The Council wishes to encourage respondents to submit their representations on-line using the internet link above and the form provided on the website. Alternatively, comments can be sent using the representation form which is available at Council Offices and local Libraries. The representations form can be submitted either by:

- Anfon eich sylwadau at: **Gwasanaeth Polisi Cynllunio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY;**
- Ffacsio eich sylwadau at **01492 592713**, neu;
- E-bostio eich sylwadau at cdll-ldp@conwy.gov.uk

Dylai sylwadau nodi'r materion a'r seiliau maent yn ymwneud â nhw, ond sylwer, yn ystod y cam hwn, rhaid iddynt ymwneud ag un neu fwy o'r newidiadau â ffocws bwriedig yn unig. **Ni ddylent gynnig newidiadau pellach i'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd na Safleoedd Amgen, gan na fydd yr Arolygydd yn ystyried unrhyw sylwadau newydd o'r fath.** Bydd unrhyw sylwadau o'r fath eu diystyru gan y dylent fod wedi cael eu gwneud yn ystod y camau blaenorol o baratoi'r cynllun.

Bydd y sylwadau a geir yn cael eu hanfon ymlaen i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio, i'w hystyried gan Arolygydd Annibynnol a benodwyd i archwilio cadernid y cynllun. Dim ond y rhai sy'n cyflwyno sylwadau er mwyn ceisio newid y CDLl Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd *(h.y. y gwrthwynebwyr)* a gyflwynodd eu sylwadau'n 'briodol' (h.y. yn unol â hysbysiadau cynharach) sydd â'r hawl i ymddangos gerbron a chael gwrandawiad gan yr Arolygydd yn yr Archwiliad. (Adran 64 (6) o Ddeddf 2004.)

Rhoddir hysbysiad o leiaf 6 wythnos cyn agor yr Archwiliad. Bydd fformat ac amseroedd y Gwrandawiadau'n fater i'r Arolygydd.

Mae Swyddog Rhaglen annibynnol wedi ei benodi a fydd yn atebol i'r Arolygydd ac yn cynorthwyo gyda gweinyddiad yr Archwiliad. Y Swyddog Rhaglen a benodwyd yw Mr

- Sending your representation to: **Planning Policy Service, Conwy County Borough Council, 26 Castle Street, Conwy, LL32 8AY;**
- Faxing your representation to **01492 592713**, or;
- E-mailing your representation to cdll-ldp@conwy.gov.uk

Representations should specify the matters and grounds to which they relate but please note at this stage they must only relate to one or more of the proposed focussed changes. **They should not propose further changes to the Revised Deposit Local Development Plan or Alternative Sites, as the Inspector will not consider any such new representations.** Any such representations will be disregarded as they should have been made during the earlier stages of the plan preparation.

Representations received will be forwarded to the Welsh Government and Planning Inspectorate, for consideration by an Independent Inspector appointed to examine the soundness of the plan. Only those making representations seeking to change the Revised Deposit LDP (*i.e. objectors*) whose representations were 'duly made' (i.e. in accordance with earlier notices), have the right to appear before and be heard by the Inspector at the Examination. (Section 64 (6) of the 2004 Act).

Notice will be given at least 6 weeks before the opening of the Examination Hearings, however, the format and timings of the Hearings will be a matter for the Inspector.

An independent Programme Officer has been appointed who will be responsible to the Inspector and will assist with the administration of the Examination. The appointed Programme

Rhys Roberts. Am ragor o wybodaeth am y broses archwilio, cysylltwch â'r Swyddog Rhaglen yn:

Swyddog Rhaglen CDLl,
Venue Cymru,
Y Promenâd,
Llandudno LL30 1BB
E-bost: programmeofficer@conwy.gov.uk
Ffôn 01492 873 616
Ffôn symudol: 07826 876 988

Cyflogir y Swyddog Rhaglen ar sail rhan-amser i ddechrau a bydd yn delio gydag unrhyw ymholiadau cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl.

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Officer is Mr Rhys Roberts. For further information regarding the examination process please contact the Programme Officer at:

LDP Programme Officer,
Venue Cymru,
Promenade,
Llandudno LL30 1BB
Email: programmeofficer@conwy.gov.uk
Phone: 01492 873 616
Mobile: 07826 876 988

The Programme Officer will initially be employed on a part time basis and will deal with any queries as soon as he is able to do so.

Further information can be obtained using the contact details above.

Yn ddiffuant/Yours sincerely



James Harland
Rheolwr Polisi Cynllunio / Planning Policy Manager
Gwasanaeth Polisi Cynllunio / Planning Policy Service